

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain Ebrill 2105

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Hefin Edwards, Alun Jones, Menai Hughes, John D Jones, Helen Ellis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Guto G Jones, Ieuan Jones, Peter Lewis.

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3/3/15

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Yn absenoldeb unrhyw gysylltiad gan y Cyngor Sir, y clerch i ddilyn y mater ymhellach

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Nodwyd bod y Cyng Peter Lewis yn gwneud ymholiadau.

[1.3] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Eglurodd y clerch bod trefniadau mewn llaw i osod dau olau ychwanegol.

[1.5] Gwasanaeth Iechyd

Nodwyd yr ateb diwedddara.

[1.6] Gwasanaeth Sgip

Nodwyd bod y Cyng Peter Lewis yn parhau i wneud ymholiadau.

[1.7] Goleuadau Nadolig

Dywedodd y clerch bod Mr Adrian Padan yn gwneud ymholiadau ynglŷn a goleuadau solar.

Y brif agenda

[1.8] Cais Cynllunio/Tai Fforddiadwy

Codi 4 Annedd Cae Fynnon, Cerrig-y-Drudion

Nodwyd bod y mynediad i'r safle wedi ei ail leoli ac nad oedd bellach gyferbyn a mynediad i'r ysgol.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cynnig.

[1.9] Diwygio Llywodraeth Leol

Rhoddyd sylw i lythyr gan Leighton Andrews o'r Cynulliad yn amlinellu'r bwriad i ail drefnu Llywodraeth Leol. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cynnig.

[2] Raves yn y Goedwig

Deallwyd bod digwyddiadau yn cynnwys cerddoriaeth uchel yn cael ei cynnal yn y goedwig ger Pentrellyncymer.

Y clerch i gysylltu gyda'r heddlu i gesio esboniad pam nad oeddent yn barod i weithredu yn y mater

[2.1] Bwrdd Dwr

Deallwyd bod y cyflenwad dwr yn anghyson yn ardal Cefn Brith ac nad oedd dwr ar gael ar adegau ar yr 17eg/18fed ar 19eg Ebrill. Y clerch i gysylltu gyda'r Bwrdd Dwr ynglŷn â'r mater

[2.2] Ymddeoliad

Nodwyd llythyr gan Mr Trebor Jones yr Adran Briffyrdd yn cynghori ei fod yn ymddeol o'r swydd yn niwedd Ebrill.

Cadeirydd\_\_\_\_\_